

**ARWEINIAD AR GYFER GWEITHREDU  
NEWIDIADAU I BWERAU'R HEDDLU A  
DARPARIAETHAU MANNAU DIOGEL YN Y DDEDDF  
IECHYD MEDDWL 1983**

**Hydref 2017**

# CYNNWYS

## 1. CYFLWYNIAD

- 1.1 *Cefndir*
- 1.4 *Statws yr arweiniad*
- 1.6 *Diben a chynnwys yr arweiniad*
- 1.11 *Cydnabyddiaethau*

## 2. DEFNYDDIO PWERAU I SYMUD I FAN DIOGEL NEU GADW MEWN MAN DIOGEL

- 2.1 Ble y gellir defnyddio pŵer adran 136(1)
- 2.3 *Lleoliadau ble y gallai pwerau adran 136(1) gael eu cymhwyso*
- 2.5 *Lleoliadau ble nad yw pwerau adran 136(1)(a) yn gymwys*
- 2.6 *Amgylchiadau'r cysylltiad*
  
- 2.7 Ymgynghori cyn defnyddio adran 136(1)
- 2.9 *Diben a natur yr ymgynghoriad*
- 2.13 *Penderfynu a yw'n ymarferol ymgynghori*
  
- 2.18 Pŵer chwilio amddiffynnol newydd

## 3. MANNAU Y GELLIR EU DEFNYDDIO FEL MAN DIOGEL

- 3.1 Defnyddio'r man diogel mwyaf priodol
  
- 3.3 Mannau addas eraill
- 3.3 *Beth yw "man addas"?*
- 3.11 *Pa bryd y mae'n briodol defnyddio man addas fel man diogel*
- 3.12 *Defnyddio anheddau preifat fel man diogel*
- 3.15 *Darpariaeth sector gwirfoddol o fannau diogel*
  
- 3.18 Defnyddio gorsaf yr heddlu fel man diogel
- 3.18 *Plant a phobl ifanc sy'n iau na 18 oed*
- 3.20 *Oedolion – amgylchiadau ble y gellir defnyddio gorsaf heddlu*
- 3.29 *Gofynion eraill yn ymwneud â defnyddio gorsaf heddlu*

## 4. CYRRAEDD AC AROS MEWN MANNAU DIOGEL

- 4.1 Cyfnod carcharu hwyaf
- 4.2 *Cyfrifo Cyfnod Cadw*
- 4.5 *Ymestyn y cyfnod cadw*
  
- 4.9 Ail-gymryd person sy'n dianc - adran 138
  
- 4.12 Rheolaeth ddiogel ar y sawl a gedwir mewn mannau diogel
- 4.13 *Rheoli diogelwch mewn mannau diogel iechyd*
- 4.15 *Rheoli diogelwch mewn "mannau addas eraill"*

*4.17 Rheoli diogelwch a lles mewn gorsafoedd heddlu*

## **5. CEFNOGI MONITRO AC ADOLYGU'R NEWIDIADAU**

5.1 Ystyriaethau ar gyfer partneriaethau lleol

5.8 Ystyriaethau ar gyfer cyrff cenedlaethol

*5.8 Gosod safonau*

*5.10 Cyrff rheoleiddio*

## **6. DEUNYDD CYSYLLTIEDIG**

6.1 Deddfwriaeth berthnasol

6.2 Safonau ac arweiniad cenedlaethol

6.3 Ffynonellau data cenedlaethol

6.4 Deunyddiau eraill

### **ATODIAD:**

#### **CYNGOR AR BONTIO I'R DDEDDFWRIAETH DDIWYGIEDIG**

- *Darpariaethau pontio i'r ddeddfwriaeth*
- *Ystyriaethau ar gyfer partneriaid plismona ac iechyd*
- *Rheoli achosion yn ystod y cyfnod pontio*

# 1. CYFLWYNIAD

## Cefndir

- 1.1. Cynhyrchwyd yr arweiniad hwn i gefnogi gweithredu newidiadau i bwerau'r heddlu a darpariaethau mannau diogel yn y Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 ("Deddf 1983") a wnaed gan y Ddeddf Plismona a Throsedd 2017 ("Deddf 2017"). Mae'r newidiadau hyn yn ymwneud yn bennaf â phwerau'r heddlu i weithredu yng nghyswllt pobl sy'n profi argyfwng iechyd meddwl at ddibenion sicrhau eu gofal a'u diogelwch.
- 1.2. Y prif newidiadau deddfwriaethol yw:
  - diwygiadau i adrannau 135, 136 a 138;
  - mewnosod adrannau newydd 136A, 136B a 136C;
  - llunio rheoliadau newydd: Rheoliadau Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Mannau Diogel) 2017.
- 1.3. Daw'r newidiadau hyn i rym ar 11 Rhagfyr 2017. Ni fydd y newidiadau yn gymwys i achosion ar y gweill ar ddechrau 11 Rhagfyr 2017 (gweler Atodiad).

## Statws yr arweiniad

- 1.4. Nid yw'r arweiniad hwn yn statudol. Ei fwriad yw cynnig cymorth i sefydliadau a gweithwyr proffesiynol perthnasol wrth nodi a deall goblygiadau amryw newidiadau. Gan fod Deddf 1983 yn gymwys i Gymru a Lloegr, mae'r arweiniad hwn hefyd yn berthnasol yn y ddwy wlad. Dylid defnyddio'r arweiniad hwn ar y cyd ag arweiniad a safonau perthnasol eraill, y mae nifer ohonynt wedi'u rhestru ym Mhennod 6.
- 1.5. Mae gan Gymru a Lloegr Godau Ymarfer statudol cyfredol mewn perthynas â'r Ddeddf 1983. Mae'r Codau Ymarfer statudol hyn yn parhau mewn grym a rhaid i weithwyr proffesiynol gofal iechyd barhau i ystyried y Codau wrth ymgymryd â'u swyddogaethau dan Ddeddf 1983 (er ble y mae newid dilynol wedi bod yn y deddfwriaeth, fe allai hyn fod yn rheswm da i ymadael o'r hyn a amlinellir yn y Cod). Bwriedir y bydd y ddau God yn cael eu diwygio i adlewyrchu'r newidiadau deddfwriaethol ac i gynnwys gwybodaeth berthnasol o'r arweiniad hwn pan fydd angen eu hadolygu nesaf. Bydd diwygiadau yn amodol ar brosesau ymgynghori arferol.

## Diben a chynnwys yr arweiniad

- 1.6. Dylai rhywun sy'n profi argyfwng iechyd meddwl dderbyn y gofal gorau posibl ar y pwynt cynharaf posibl. Bwriad y newidiadau cyfreithiol a gyflwynwyd gan Ddeddf 2017 yw gwella ymatebion gwasanaeth di-oed i bobl sydd angen cymorth ar frys gyda'u hiechyd meddwl mewn achosion ble mae swyddogion yr heddlu yw'r cyntaf i ymateb.
- 1.7. Gallai effaith y newidiadau a'r camau gweithredu sy'n ofynnol amrywio gan ddibynnu ar drefniadau neu amgylchiadau lleol cyfredol. Er enghraifft, yn yr

ardaloedd ble yr oedd dibyniaeth sylweddol yn flaenorol ar ddefnydd ar orsafoedd heddlu fel mannau diogel, yn amlwg fe fydd hi'n bwysig mynd ati ar frys i nodi dewisiadau amgen addas. Nid bwriad yr arweiniad hwn yw pennu trefniadau partneriaeth lleol, a fydd wedi datblygu dros amser ac yn unol ag anghenion lleol, ond i dynnu sylw at faterion y gellid fod angen eu hystyried wrth adolygu'r trefniadau hynny. Bydd cydweithio rhagweithiol, fel y gyrrir gan grwpiau Concordat Gofal mewn Argyfwng Lleol ar draws Cymru a Lloegr, yn parhau yn allweddol i weithredu'r newidiadau deddfwriaethol yn llwyddiannus.

- 1.8. Gellir crynhoi'r prif newidiadau i bwerau'r heddlu a darpariaethau mannau diogel fel a ganlyn:
- gall pwerau adran 136 gael eu defnyddio yn awr yn unrhyw le ac eithrio annedd preifat;
  - mae bellach yn anghyfreithlon defnyddio gorsaf heddlu fel man diogel i unrhyw un sy'n iau na 18 oed o dan unrhyw amgylchiadau;
  - dim ond o dan amgylchiadau penodol y gall gorsaf yr heddlu gael ei defnyddio fel man diogel ar gyfer oedolion, a amlinellir mewn rheoliadau;
  - mae'r cyfnod carcharu hwyaf blaenorol o hyd at 72 awr wedi'i ostwng i 24 awr (oni bai bod meddyg yn tystio bod estyniad o hyd at 12 awr yn angenrheidiol);
  - cyn defnyddio pŵer adran 136 rhaid i swyddogion yr heddlu, ble fo'n ymarferol, ymgynghori ag un o'r gweithwyr proffesiynol iechyd a restrir yn adran 136(1C), neu mewn rheoliadau a wneir o dan y ddarpariaeth honno;
  - gellir cadw person sy'n destun adran 135 neu 136 mewn man diogel, ynghyd â'i symud i fan diogel. Gan hynny, ble y mae gwarant adran 135 wedi'i weithredu, gellid cadw person yn ei gartref (os yw'n fan diogel) at ddibenion asesu yn hytrach na'i symud i fan diogel arall;
  - mae pŵer chwilio newydd yn caniatáu i swyddogion yr heddlu chwilio unigolion sy'n destun pwerau adran 135 neu 136 at ddibenion amddiffynnol.
- 1.9. Mae'r arweiniad hwn yn mynd i'r afael â'r newidiadau deddfwriaethol fel y maen nhw'n cymhwyso'n gronolegol mewn ymgysylltiad arferol, yn hytrach nac yn y drefn y maen nhw'n ymddangos yn y deddfwriaeth. Gan hynny mae'n dechrau gyda rhyngweithiadau cychwynnol rhwng swyddog heddlu a pherson y credir ei fod yn dioddef anhwylder meddwl, ac wedyn nodi mannau diogel, gweithdrefnau i'w dilyn yn y mannau hynny, ac awgrymiadau ar gyfer adolygu a monitro gweithredu'r newidiadau. Mae'r arweiniad yn ceisio rhagweld a mynd i'r afael â'r materion sy'n fwyaf tebygol o godi o'r newidiadau deddfwriaethol. Serch hynny, os ceir amheuaeth o dan unrhyw amgylchiadau, dylai gweithwyr proffesiynol o fewn sefydliadau sy'n gysylltiedig ag achosion o'r fath geisio cyngor cyfreithiol penodol neu arweiniad gweithdrefnol.
- 1.10. Y sefydliadau â'r diddordeb mwyaf uniongyrchol yn yr arweiniad hwn yw lluoedd yr heddlu, ymddiriedolaethau iechyd meddwl yn Lloegr, grwpiau comisiynu clinigol yn Lloegr, gwasanaethau iechyd meddwl o fewn Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru, GIG Cymru, adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol, a gwasanaethau ambiwlans. Fe allai hefyd fod

o ddiddordeb i bobl a allai fod yn destun pwerau heddlu a darpariaethau  
mannau diogel, ynghyd â'u teuluoedd.

### **Cydnabyddiaethau**

- 1.11. Datblygwyd yr arweiniad hwn gan yr Adran Iechyd a'r Swyddfa Gartref wedi'i hysbysu trwy ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid iechyd arbenigol, plismona a gofal cymdeithasol, gan gynnwys y sefydliadau a ganlyn:

<i>Rhwydwaith arweinwyr AMHP</i>	<i>Cynghrair Iechyd Meddwl</i>
<i>Cymdeithas Prif Weithredwyr Ambiwlansys</i>	<i>Mind</i>
<i>Cymdeithas Comisiynwyr Heddlu a Throsedd</i>	<i>Arweinydd Plismona Cenedlaethol dros y Ddalfa</i>
<i>Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain</i>	<i>Arweinydd Plismona Cenedlaethol dros Iechyd Meddwl a Phlismona</i>
<i>Heddlu Trafnidiaeth Prydain</i>	<i>NHS England</i>
<i>Comisiwn Ansawdd Gofal</i>	<i>Darparwyr GIG</i>
<i>Y Ganolfan Iechyd Meddwl</i>	<i>Gweithgor PCC ar Iechyd Meddwl</i>
<i>Y Coleg Plismona</i>	<i>Rethink</i>
<i>Arbenigwyr yn ôl profiad (x2)</i>	<i>Coleg Nyrsio Brenhinol</i>
<i>Cyfadran Meddyginiaeth Fforensig a Chyfreithiol</i>	<i>Coleg Brenhinol y Seiciatryddion</i>
<i>Arolygiaeth Cwnstabiliaeth ei Mawrhydi</i>	<i>Llywodraeth Cymru</i>
<i>Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu</i>	<i>Swyddog Cyswllt yr Heddlu Llywodraeth Cymru</i>

## 2. DEFNYDDIO PWERAU I SYMUD I FAN DIOGEL NEU GADW MEWN MAN DIOGEL

---

Crynodeb o ddarpariaethau:

- Gall swyddog heddlu gadw person mewn man diogel, ynghyd â'i symud i fan diogel, o dan adran 135 ac adran 136.
  - Gallai swyddog heddlu ddefnyddio pwerau o dan 136(1) mewn unrhyw fan ac eithrio annedd preifat a'i adeiladau neu diroedd cysylltiedig (fel y diffinnir gan yr adran newydd 136(1A)).
  - Cyn defnyddio pwerau adran 136(1), mae gofyn i swyddog heddlu yn ôl adran newydd 136(1C) ymgynghori ag un o nifer o weithwyr proffesiynol a nodir, cyhyd â'i bod hi'n ymarferol gwneud hynny.
  - Mae adran newydd 136C yn galluogi i swyddog heddlu chwilio person sy'n destun i adran 135, 136(2) neu 136(4) y maen nhw'n credu'n rhesymol sy'n berygl i'w hun neu eraill ac sy'n cuddio eitem beryglus, at ddiben darganfod a chael yr eitem honno.
- 

### BLE Y GELLIR DEFNYDDIO PŴER ADRAN 136(1)

- 2.1. Mae gan swyddog heddlu bŵer o dan adran 136(1)(a) i symud person sy'n ymddangos ei fod yn dioddef o anhwylder meddwl ac angen gofal neu reolaeth ddi-oed i fan diogel (neu ei gadw mewn man diogel). Yn flaenorol, ni allai person gael ei symud i fan diogel oni bai ei fod ef neu hi wedi'i ganfod mewn man "y mae gan y cyhoedd fynediad ato". Yn dilyn y newidiadau, gellir defnyddio'r pŵer hwn yn awr ble y mae'r person mewn unrhyw le ac eithrio, yn gyffredinol, "annedd preifat" neu ei adeiladau neu diroedd cysylltiedig.
- 2.2. Defnyddir y term "annedd preifat" yn y ddogfen hon er rhwyddineb. Mae adran newydd 136(1A) yn datgan y gellid defnyddio'r pŵer o dan adran 136(1) os yw'r person mewn unrhyw fan ac eithrio:

*“(a) unrhyw dŷ, fflat neu ystafell ble y mae'r person hwnnw, neu unrhyw berson arall, yn byw, neu  
(b) unrhyw iard, gardd, garej neu dŷ allan a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r tŷ, fflat neu ystafell, ac eithrio un a ddefnyddir hefyd mewn cysylltiad ag un neu'n fwy o dai, fflatiau neu ystafelloedd eraill.”*

## **Lleoliadau ble y gallai pwerau adran 136(1) gael eu cymhwysu**

- 2.3. Mae nifer o leoliadau ble y gall person bellach gael ei symud fel arfer i fan diogel o dan adran 136(1)(a), ble nad oedd hynny'n wir o'r blaen neu ble'r oedd dryswch a oedd gan y cyhoedd fynediad i'r man. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft:
- Llinellau rheilffordd
  - Wardiau ysbyty<sup>1</sup>
  - Toeau (adeiladau masnachol neu fusnes)
  - Gorsafoedd yr heddlu
  - Swyddfeydd
  - Ysgolion
  - Gerddi a meysydd parcio sy'n gysylltiedig ag eiddo preswyl cymunedol
  - Rhannau amhreswyl o adeiladau preswyl gyda mynediad cyfyngedig
- 2.4. Mae adran newydd 136(1B) yn galluogi i swyddog heddlu fynd i mewn i unrhyw le ble y mae adran 136(1) yn berthnasol (trwy rym os oes raid) i symud person.

## **Lleoliadau ble nad yw pwerau adran 136(1) yn gymwys**

- 2.5. Dylai'r manau ble nad yw adran 136(1) yn gymwys fod yn glir ym mwyafrif yr achosion – er enghraifft os yw'r person wedi'i leoli mewn lolfa neu ardd neu annedd preifat annibynnol. Serch hynny, mewn senarios eraill fe allai fod yn llai amlwg. Ni fyddai Adran 136(1)(a) fel arfer yn gymwys os yw'r person wedi'i leoli mewn ystafell breifat mewn cartref gofal neu breswyl ble y mae'r person yn byw.

## **Amgylchiadau'r cysylltiad**

- 2.6. Nid yw adran 136(1) yn gofyn mwyach i swyddog heddlu "ffeindio" y person dan sylw. Felly mae bellach yn glir bod modd i adran 136(1) fod yn gymwys waeth sut y mae'r swyddog heddlu yn dod i gysylltiad â'r unigolyn, gan gynnwys o dan amgylchiadau ble mae'r swyddog eisoes wedi bod gyda'r person am beth amser neu ble'r oedd y swyddog wedi dod ar ei draws yn dilyn galwad i ymateb i ddigwyddiad.

## **YMGYNGHORI CYN DEFNYDDIO ADRAN 136(1)**

- 2.7. Mae gofyn bellach i'r swyddog heddlu yn ôl adran newydd 136(1C) ymgynghori ag un o blith rhestr o weithwyr proffesiynol gofal iechyd penodol ble y mae'n ymarferol gwneud hynny, cyn penderfynu cadw person, neu symud person, i fan diogel ai peidio o dan adran 136(1).

---

<sup>1</sup> Gweler Cod Ymarfer Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Lloegr) paragraff 16.20 mewn perthynas â chleifion mewnol mewn wardiau ysbyty



2.8. Amlinella deddfwriaeth y gweithwyr proffesiynol gofal iechyd y gall swyddog ymgynghori â hwy, a dyma pwy oeddynt adeg cyhoeddi'r arweiniad hwn:

- Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy;
- nyrs gofrestrdig;
- ymarferwr meddygol cofrestrdig;
- therapydd galwedigaethol;
- parafeddyg<sup>2</sup>.

### **Diben a natur yr ymgynghoriad**

2.9. Diben yr ymgynghoriad yw i'r swyddog heddlu – sy'n ystyried defnyddio'i bwerau o dan adran 136 – sicrhau gwybodaeth a chyngor iechyd meddwl amserol a pherthnasol a fydd yn ei gefnogi i benderfynu sut i weithredu er lles gorau'r person dan sylw.

2.10. Nid yw'r newidiadau deddfwriaethol yn gofyn i'r ymgynghori fod ar unrhyw ffurf benodol. Bydd union natur yr ymgynghori, a sut y gallai hysbysu'r penderfyniadau a wneir gan y swyddog heddlu, yn amrywio gan ddibynnu ar amgylchiadau unigol pob achos. Bydd y rhain yn cynnwys, er enghraifft, a yw'r gweithiwr proffesiynol gofal iechyd ar y safle ac yn gallu rhyngweithio gyda'r person neu'n darparu cyngor o bell, ac a yw'r person yn gyfarwydd i wasanaethau iechyd lleol a bod modd cael gafael ar gofnodion meddygol priodol.

2.11. Dylai'r swyddog heddlu geisio canfod, a dylai'r gweithiwr proffesiynol gofal iechyd yr ymgynghorir ag ef gynnig, ble bynnag fo hynny'n bosibl, gwybodaeth neu gyngor yn ymwneud â:

- barn a yw hyn yn ymddangos fel mater iechyd meddwl ar sail arsylwad proffesiynol ac, os yn bosibl, holi'r person;
- a yw materion iechyd corfforol eraill o bryder neu'n cyfrannu at ymddygiad (e.e. cam-ddefnyddio sylweddau, arwyddion o anaf corfforol neu salwch);
- a yw'r person yn gyfarwydd i ddarparwyr gwasanaethau iechyd lleol;
- os ydyw, a yw'n bosibl cael mynediad at gofnodion meddygol neu unrhyw gynllun gofal i bennu hanes meddygol a strategaethau a awgrymir i reoli argyfwng iechyd meddwl yn briodol;
- o dan yr amgylchiadau, a yw defnydd arfaethedig ar bwerau adran 136 yn briodol;
- os pennir bod defnyddio bwerau adran 136 yn briodol – nodi man diogel iechyd addas, a hwyluso mynediad ato;
- os pennir nad yw defnyddio bwerau adran 136 yn briodol – nodi a gweithredu trefniadau amgen (megis tywys y person adref, at ei feddyg ei hun, neu i'r ysbyty, neu i fan cymunedol o dawelwch/seibiant).

---

<sup>2</sup> Enwir therapyddion galwedigaethol a pharafeddygon yn rheoliad 8 Rheoliadau Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Mannau Diogel) 2017.

- 2.12. Y swyddog heddlu sy'n cadw'r cyfrifoldeb eithaf am y penderfyniad i ddefnyddio'i bwerau adran 136(1), ar ôl ystyried y cyngor a roddwyd iddo fel rhan o unrhyw ymgynghoriad. Dylai'r swyddog heddlu sicrhau bod unrhyw ymgynghoriad yn cael ei gofnodi – gan gynnwys gyda phwy yr ymgynghorwyd a'r cyngor a roddwyd.

### **Penderfynu a yw'n ymarferol ymgynghori**

- 2.13. Cyfrifoldeb y swyddog heddlu sy'n ystyried defnyddio adran 136(1) yw pennu a yw'n ymarferol neu beidio o dan yr amgylchiadau penodol i ymgynghori â gweithwyr iechyd proffesiynol. Bydd dyfarniad y swyddog ynglŷn ag a yw'n ymarferol ymgynghori yn debyg o gael ei hysbysu gan nifer o ffactorau posibl. Bydd y rhain yn cynnwys:
- a oes trefniadau lleol wedi'u sefydlu i gynnal ymgynghoriad o'r fath (er enghraifft, cynlluniau brysbennu stryd – gweler isod);
  - yr amser mae'n debyg o gymryd i gynnal yr ymgynghoriad;
  - a yw'r person yr ymddengys ei fod yn dioddef o anhwylder meddwl yn debyg o barhau i gydweithredu ac yn bresennol yn ystod yr amser y cymer hi i ymgynghori; ac
  - a yw'n ddiogel ymgymryd ag ymgynghoriad neu a yw ymddygiad y person yn gofyn am gamau di-oed er budd diogelwch.
- 2.14. Ni ddisgwylir y bydd angen i'r swyddogion heddlu eu hunain gysylltu â rhestr eang o Feddygon Teulu lleol neu wasanaethau gofal iechyd eraill i geisio cyngor. Dylai'r swyddogion heddlu gael eu cefnogi trwy drefniadau lleol, a dylent wybod – neu'n gallu sefydlu yn gyflym – a yw cyngor o'r fath ar gael yn rhwydd iddynt. Gallai cyngor o'r fath, er enghraifft, fod ar gael fel rhan o fenter 'brysbennu stryd', trwy drefniadau ystafell reoli neu ganolfan alw neu trwy bwynt cyswllt gofal mewn argyfwng lleol gyda gwasanaethau iechyd meddwl. Os nad yw trefniadau o'r fath wedi'u sefydlu yn lleol, mae'n llai tebygol o fod yn ymarferol ymgynghori. Yn yr un modd, gallai methiant cyfarpar cyfathrebu neu signal "parthau marw" olygu fod ymgynghori yn anymarferol.
- 2.15. Mewn achosion ble y mae ymgynghori wedi cychwyn, fe allai ddod i ben heb gasgliad os, er enghraifft, bod ymddygiad yr unigolyn dan sylw yn newid – sy'n gofyn am benderfyniad di-oed, neu fod ymateb i gais am gyngor wedi'i oedi yn sylweddol neu wedi'i darfu am ryw reswm.
- 2.16. Dylai protocolau y cytunwyd arnynt yn lleol sy'n rhoi manylion pa bryd y gall gwybodaeth gael ei rhannu rhwng asiantaethau lleol at ddibenion diogelu'r person ac amddiffyn eraill, os credir bod risg o niwed, fod wedi'u sefydlu ym mhob ardal (gweler paragraff 16.31 Deddf Iechyd Meddwl 1983: Cod Ymarfer (Lloegr) a paragraff 16.38 Deddf Iechyd Meddwl 1983 Cod Ymarfer Cymru (2016)).

- 2.17. Dylai'r swyddog heddlu sicrhau bod unrhyw benderfyniad i beidio ag ymgynghori cyn defnyddio pwerau adran 136(1), a'r rheswm, yn cael ei gofnodi.

## **PŴER CHWILIO AMDDIFFYNNOL NEWYDD**

- 2.18. Mae adran 136C newydd yn caniatáu i swyddog heddlu chwilio unigolyn sy'n destun i adran 135, 136(2) neu 136(4) os oes gan swyddog seiliau rhesymol i gredu y gallai'r person fod yn berygl i'w hun neu eraill ac yn cuddio rhywbeth arno/arni y gellid ei ddefnyddio i anafu ei hun yn gorfforol neu eraill. Mae hyn yn mynd i'r afael â diffyg pwerau chwilio penodol blaenorol o dan rai amgylchiadau, gan gynnwys a yw heddlu yn mynychu cartrefi pobl i gefnogi gwarant adran 135.
- 2.19. Cynlluniwyd y pŵer chwilio i sicrhau diogelwch pawb dan sylw a dylid ei ddefnyddio'n briodol i gefnogi asiantaethau plismona ac iechyd i ofalu'n effeithiol am y person a'i gefnogi. Nid yw'r pŵer newydd yn cynnwys unrhyw gyfyngiadau yn ymwneud ag oed neu unrhyw nodwedd arall y person a fydd yn cael ei chwilio. Serch hynny, nid yw'r pŵer yn gofyn i berson gael ei chwilio. Mae unrhyw chwilio a gynhelir gan y swyddog o dan adran newydd 136C wedi'i gyfyngu i gamau sy'n rhesymol ofynnol i ddarganfod eitem y cred y swyddog sydd gan y person neu y gallai fod yn ei guddio. Dim ond dillad allanol y gall swyddog eu tynnu. Gall y swyddog chwilio yng ngheg y person, ond nid yw'r pŵer newydd yn caniatáu i'r swyddog gynnal chwiliad personol.
- 2.20. Nid yw'r pŵer adran 136C newydd yn effeithio ar gymhwysedd pwerau chwilio cyfredol eraill – gan gynnwys pwerau o dan adrannau 32 a 54 Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, a phwerau gweithwyr proffesiynol iechyd i chwilio cleifion sy'n cael eu cadw mewn ysbytai o dan rai amgylchiadau.

### 3. MANNAU Y GELLIR EU DEFNYDDIO FEL MAN DIOGEL

---

Crynodeb o ddarpariaethau:

- **Diffinnir man diogel bellach yn y Ddeddf fel:-**
    - **ysbyty;**
    - **ysbyty annibynnol neu gartref gofal ar gyfer unigolion ag anhwylder meddwl;**
    - **gorsaf heddlu;**
    - **llety preswyl a ddarperir gan awdurdod gwasanaethau cymdeithasol lleol;**
    - **unrhyw fan addas arall (gyda chaniatâd y person sy'n rheoli neu'n preswyllo yn y fan honno).**
  - **Yn rhinwedd adran newydd 136A(1) ni ellir defnyddio gorsaf heddlu fel man diogel i unigolyn sy'n iau na 18 oed o dan unrhyw amgylchiadau.**
  - **Dim ond fel man diogel i berson 18 oed a hŷn y gellir defnyddio gorsaf heddlu o dan yr amgylchiadau penodol a amlinellir yn y Rheoliadau Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Mannau Diogel) 2017, sef, ble:**
    - (i) mae ymddygiad y person yn cynnig risg di-oed o anaf difrifol neu anaf i'w hun neu berson arall;**
    - (ii) oherwydd y risg honno, nid ellir disgwyl i unrhyw fan diogel arall yn yr ardal heddlu berthnasol ei gadw, a**
    - (iii) hyd y gellir yn rhesymol, bydd gweithiwr proffesiynol gofal iechyd yn bresennol yn yr orsaf heddlu ac ar gael iddo**
  - **Rhaid derbyn awdurdod swyddog sydd ar reng arolygydd o leiaf er mwyn defnyddio gorsaf heddlu o dan amgylchiadau o'r fath – oni bai bod y person yn gwneud y penderfyniad ei hun o reng o'r fath neu'n uwch.**
  - **Gall man nas enwir yn benodol yn y ddeddfwriaeth fel man diogel fod yn "fan addas" (a chan hynny yn fan diogel) os yw'n addas, gyda chytundeb grwpiau perthnasol. Mewn achos cartref preifat rhaid cael cytundeb y person y credir ei fod yn dioddef o anhwylder meddwl ac, oni bai bod y person a gedwir yn byw ar ei ben ei hun yn yr eiddo, un person sy'n byw yno. Os nad yw'r fan yn gartref preifat, mae angen cytundeb y person y ymddengys ei fod yn rheoli'r fan honno.**
-

## DEFNYDDIO'R MAN DIOGEL MWYAF PRIODOL

- 3.1. Mae'r ddeddfwriaeth yn parhau i nodi y gall ystod o leoliadau gael eu defnyddio fel man diogel, sy'n caniatáu ar gyfer hyblygrwydd lleol i ymateb i wahanol sefyllfaoedd. Dylid mynd â pherson mewn argyfwng iechyd meddwl neu ei gadw mewn man diogel sydd fwyaf addas i'w anghenion. Mae'r disgwyliad yn parhau, gydag eithriadau cyfyngedig, y bydd anghenion y person yn cael eu bodloni'n fwyaf priodol trwy fynd ag ef neu hi i fan diogel 'iechyd' – canolfan adran 136 pwrpasol ble gellir gofalu amdano gan weithwyr proffesiynol iechyd meddwl cymwys neu feddygol eraill sydd wedi'u hyfforddi'n gywir. Serch hynny, fe fydd sefyllfaoedd ble bydd hi'n briodol defnyddio manau diogel eraill, neu ble gellir defnyddio manau diogel eraill i ategu at ddefnydd manau diogel iechyd.
- 3.2. Ni ddylai defnydd o fannau addas eraill ostwng ar nifer neu ddefnydd o fannau diogel iechyd. Serch hynny, efallai y bydd comisiynwyr lleol yn dymuno ystyried cynyddu gallu man diogel trwy fynd i drefniadau ffurfiol gyda thrydydd partiön (megis elusennau, sector gwirfoddol neu ddarparwyr preifat) i sefydlu manau diogel ychwanegol, pwrpasol; neu trwy gynnal cynlluniau wrth gefn gyda phartneriaid lleol i nodi manau dros dro posibl pe na bai pob cyfleuster arall ar gael am ba bynnag reswm; neu'r ddau.

## MANNAU ADDAS ERAILL

### Beth yw "man addas"?

- 3.3. Mae dau brif ofyniad ar gyfer pennu a yw man (ac eithrio un a enwir yn benodol) yn "fan addas" – ac y gellir felly ei ddefnyddio fel man diogel
  - i. *Y cyntaf yw a yw'r man ei hun yn addas.*
- 3.4. Bydd hyn yn cynnwys gwerthuso nifer o ffactorau rhyng-gysylltiedig gan gynnwys er enghraifft, yr amgylchedd ffisegol, cyflwr ac ymddygiad y person, ac unrhyw berthynas posibl rhwng y person a'r fan honno.
- 3.5. Dylai man diogel addas, yn ddelfrydol, ddarparu amgylchedd therapiwtig fel rhan o wasanaethau iechyd a gofal lleol, neu mewn cysylltiad â hwy. Amlinellir safonau ar gyfer manau diogel mewn arweiniad a gyhoeddir gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion ac amlinellir ystyriaethau mewn perthynas â defnydd o fannau diogel addas yng Nghodau Ymarfer Cymru a Lloegr.
- 3.6. Fel lleiafswm, ac wrth ystyried trefniadau wrth gefn, dylid cael gofod tawel, cyfforddus a phreifat i'r person aros, a dylai unrhyw risgiau corfforol posibl gael eu nodi a lliniaru arnynt hyd y gellir.
- 3.7. Wrth ystyried addasrwydd man, mae ymddygiad y sawl sy'n cael ei gadw yn debyg o fod yn ystyriaeth allweddol. Efallai na fyddai gofod dros dro neu ad hoc megis annedd preifat, nad yw'n gynhenid ddiogel neu wedi'i staffio'n

broffesiynol, er enghraifft yn addas i rywun sy'n anymatebol neu nad yw'n cydweithredu.

- 3.8. O dan rai amgylchiadau gallai person fod yn llai trallodus os caiff ei dywys i, neu ei gadw mewn, man diogel y mae'n gyfarwydd ag ef. Gallai hyn fod yn arbennig o wir er enghraifft, mewn perthynas â phlant neu bobl hŷn, neu o bosibl y rheini sydd wedi profi argyfwng iechyd meddwl ar sawl achlysur ac a allai fod â pherthynas gyda sefydliad cymorth penodol. Serch hynny, ni ddylid gwneud unrhyw ragdybiaethau am hoffterau personol posibl. Yn ychwanegol, os ydych yn ystyried defnyddio annedd preifat dylai'r swyddog heddlu ystyried unrhyw wybodaeth – sydd ar gael yn rhwydd i'r heddlu a'u hasiantaethau partner – yn nodi y gallai defnydd o'r cyfeiriad hwnnw fel man diogel fod yn niweidiol i les y sawl sy'n cael ei gadw (er enghraifft, pryderon diogelu, neu ddigwyddiadau blaenorol yn y cyfeiriad).

ii. *Yr ail yw bod cytundeb priodol yn cael ei roi i ddefnyddio'r man fel man diogel.*

- 3.9. Mae gwahanol ddarpariaethau mewn perthynas â'r cytundeb perthnasol yn gymwys gan ddibynnu a yw'r man yn annedd preifat (a nifer y preswylwyr yno) neu fath arall o eiddo.

(a) Os ystyrir defnyddio annedd preifat (tŷ, fflat neu ystafell ble y mae person yn byw) fel man diogel, mae adran 135(7)(a) yn gofyn bod y person y credir ei fod yn dioddef o anhwylder meddwl ac, os nad dyma'r unig un sy'n byw yn yr eiddo, o leiaf un preswlydd o'r annedd, yn cytuno i'r man gael ei ddefnyddio fel man diogel. Amlinellir hyn yn gryno isod:

<i>Senario</i>	<i>Cytundeb sy'n ofynnol</i>
Os mai'r person y credir ei fod yn dioddef o anhwylder meddwl yw'r unig un sy'n preswyllo yn y man.	Bod y person hwnnw yn cytuno i ddefnyddio'r man fel man diogel;
Os yw'r person y credir ei fod yn dioddef o anhwylder meddwl yn preswyllo yn y fan ond nad ef yw'r unig un.	Bod y person hwnnw ac un o'r preswylwyr eraill yn cytuno i ddefnyddio'r man fel man diogel.
Os nad yw'r person y credir ei fod yn dioddef o anhwylder meddwl yn preswyllo yn y fan.	Bod y person hwnnw a'r preswlydd (neu, os oes mwy nac un, un o'r preswylwyr) yn cytuno i ddefnyddio'r fan fel man diogel.

Gallai fod yn anodd bod yn sicr bod y person y credir ei fod yn dioddef o anhwylder meddwl yn gallu cytuno i ddefnyddio annedd preifat fel man diogel o dan rai amgylchiadau. Serch hynny, daw materion iechyd meddwl ar ystod eang o ffurfiau, ac er y gallai ymddangos fod rhywun yn dioddef o anhwylder meddwl nid yw hyn o reidrwydd yn

golygu ei fod ef/ei bod hi yn methu cytuno i ddefnyddio man fel man diogel. Rhaid ystyried a yw'r person yn gallu deall y wybodaeth sy'n berthnasol i'r penderfyniad, cadw'r wybodaeth honno, defnyddio a phwyso'r wybodaeth honno fel rhan o'r broses o wneud penderfyniad, a chyfathrebu'r penderfyniad hwnnw. Mae arfer da yn argymhell ymdriniaeth yn canolbwyntio ar y person, gyda'r person yn ymroi i gymryd rhan yn ei drefniadau gofal ble bynnag fo hynny'n bosibl. Ni ddylai'r person, serch hynny, gael ei orfodi neu ei berswadio i roi cytundeb o'r fath neu fynegi hoffter i barhau mewn annedd preifat. Os yw'n amlwg na all ddeall neu gyfathrebu gyda heddlu neu weithwyr proffesiynol iechyd meddwl, ni ellir ceisio na sicrhau'r cytundeb angenrheidiol.

(b) Os ystyrir defnyddio eiddo ac eithrio annedd preifat, mae adran 135(7)(b) yn gofyn bod yn rhaid i berson yr ymddengys i'r swyddog heddlu ei fod yn gyfrifol am reoli'r man, gytuno i'w ddefnyddio fel man diogel. Yn achos gweithle neu sefydliad cymunedol, dylai cytundeb uwch reolwyr y sefydliad sydd wedi'i leoli yn y lleoliad hwnnw ar y pryd fod yn ddigon.

- 3.10. Wrth geisio cytundeb ar ddefnyddio annedd preifat neu eiddo arall fel man diogel, dylai'r swyddog heddlu sicrhau bod yr unigolion perthnasol yn deall i ba ddiben y bydd y man yn cael ei ddefnyddio, a'r trefniadau cymorth a fydd yn cael eu sefydlu i ddiogelu'r person (ac unrhyw eraill yn bresennol) wrth aros am asesiad. Dylai hi fod yn glir nad oes rhwymedigaeth gyfreithiol arnynt i gytuno i gais o'r fath. Dylid cofnodi'r cais hwn a'r cytundeb a roddir.

### **Pan fydd hi'n briodol defnyddio man addas fel man diogel**

- 3.11. Hyd yn oed os yw man yn ymddangos yn addas a bod unigolion perthnasol yn debyg o gytuno i'w ddefnyddio fel man diogel – nid yw o reidrwydd yn golygu y dylai man o'r fath gael ei ddefnyddio. Yn benodol ni ddylai manau o'r fath gael eu defnyddio dim ond oherwydd mai dyna'r man diogel hawsaf a mwyaf cyfleus. Gyda phob ystyriaeth, dylai buddion gorau'r person sydd angen man diogel fod yn bennaf wrth benderfynu pa fan y dylid ei ddefnyddio.

### **Defnyddio anheddau preifat fel man diogel**

- 3.12. Ni ddylid cymryd yn ganiataol y gallai fod yn well gan berson aros yng nghartref y teulu neu gael ei dywys i'r fan honno. O dan rhai amgylchiadau, er enghraifft, gallai perthnasau o fewn y cartref fod yn cyfrannu at drallod meddwl.
- 3.13. Mewn achosion ble y mae gwarant adran 135(1) wedi'i ddefnyddio i fynd i mewn i gyfeiriad preifat, gallai defnyddio'r un cyfeiriad hwnnw fel man diogel – gyda'r person sy'n destun y warrant yn parhau mewn amgylchiadau cyfarwydd – osgoi unrhyw drallod y gallai'r person ei brofi fel arall o'i gludo i fan diogel arall. O dan achosion o'r fath bydd gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl eisoes yn bresennol a gallai fod er lles pennaf y person cynnal asesiad yn y fan â'r lle.



- 3.14. Mewn achosion adran 136, byddai defnyddio annedd preifat fel man diogel fel arfer yn cynnwys y person yn cael ei dywys – ar awdurdod swyddog heddlu – i'w gartref neu gartref rhywun y mae'n ei adnabod, megis aelod o'r teulu, gwarcheidwad, neu ffrind, ble gall elwa o gefnogaeth deuluol a chysur wrth aros am asesiad Deddf Iechyd Meddwl.

### **Darpariaeth sector gwirfoddol fel mannau diogel**

- 3.15. Yn gynyddol, mae ardaloedd lleol wedi datblygu ystod o gyfleusterau cymorth a chefnogaeth anffurfiol, megis caffis argyfwng, canolfannau galw i mewn, gofodau tawel a sefydliadau tebyg eraill. Rhedir y rhain yn aml gan sefydliadau trydydd sector neu grwpiau cymunedol lleol. Yn gyffredinol mae mannau o'r fath wedi'u cynllunio i gefnogi unigolion ar sail hunangyfeirio neu alw i mewn. Fe allant, gan hynny, fod o gymorth penodol i swyddogion heddlu ble, er enghraifft, y credir bod defnydd ar bŵer i ddefnyddio pwerau adran 136 yn amhriodol. Serch hynny, ar brydiau fe ellid ystyried defnyddio cyfleusterau o'r fath fel man diogel addas.
- 3.16. Dylai polisïau lleol ar ddefnydd pwerau heddlu a mannau diogel nodi mannau diogel newydd ac amgylchiadau defnyddio'r mannau hynny (er enghraifft, boed hynny fel mannau diogel pwrpasol, neu gefnogaeth wrth gefn, ychwanegol i'w defnyddio yn ad-hoc). Er y gall mannau diogel sector gwirfoddol fod yn adnodd ychwanegol pwysig, mae comisiynwyr gwasanaeth iechyd yn parhau yn gyfrifol am sicrhau darpariaeth mannau diogel iechyd digonol.
- 3.17. Ble y gall trefniadau ffurfiol gael eu llunio gyda sefydliadau lleol ar ddefnyddio eiddo fel mannau diogel, gallai'r rhain ymdrin â materion megis darparu cyfleusterau penodol, dealltwriaeth ar drefniadau diogelwch a lles ac amgylchiadau ble na fyddent yn cael eu defnyddio. Serch hynny, wrth ddefnyddio man o'r fath rhaid i'r swyddog heddlu wirio, ym mhob achos unigol, bod y person cyfrifol yn cytuno (fel sy'n ofynnol yn adran 135(7)(b)) i ddefnyddio'r eiddo fel man diogel. Bydd penderfyniadau ad-hoc i ddefnyddio eiddo fel man diogel ble nad oes unrhyw ddealltwriaeth neu drefniadau blaenorol yn bodoli yn gofyn am ofal cynyddol a gwirio bod y person cyfrifol yn deall i beth y mae ef neu hi yn cytuno.

### **DEFNYDDIO GORSAF HEDDLU FEL MAN DIOGEL**

#### **Pobl a phobl ifanc iau na 18 oed**

- 3.18. Mae adran 136A(1) newydd yn golygu na all gorsaf heddlu bellach gael ei defnyddio fel man diogel i berson sy'n iau na 18 oed o dan unrhyw amgylchiadau. Nid oes eithriadau i'r gwaharddiad llwyr hwn.
- 3.19. Dylai protocolau lleol amlinellu'n glir y ddarpariaeth a wneir i fannau diogel sy'n briodol i blant neu bobl ifanc sy'n iau na 18 oed. Os yw mannau o'r fath

yn brin, gallai partneriaid ddymuno archwilio dichonolrwydd cydweithio ar draws ffiniau gydag ardaloedd sy'n ffinio. Mewn achosion ble mae plentyn neu berson ifanc sy'n iau na 18 oed yn dangos ymddygiad treisgar neu danlyd, bydd yn rhaid rheoli'r ymddygiad hwn yn ddiogel mewn man diogel iechyd (neu fan diogel ac eithrio gorsaf heddlu). Dylai partneriaid lleol gynllunio ar gyfer y posibilrwydd hwn.

### **Oedolion – amgylchiadau ble gellir defnyddio gorsaf heddlu**

- 3.20. Dim ond ar gyfer person dros 18 oed y gellir defnyddio gorsaf heddlu erbyn hyn a dim ond o dan amgylchiadau cyfyngedig iawn. Mae Rheoliadau Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Mannau Diogel) 2017 yn nodi'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gellir defnyddio gorsaf heddlu fel man diogel a'r dulliau diogelu y mae angen eu cymhwyso dan achosion o'r fath.
- 3.21. Y tri amod y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gellir defnyddio gorsaf heddlu fel man diogel:

#### ***(1) bod ymddygiad y person yn cynnig risg di-oed o anaf difrifol neu farwolaeth i'r person hwnnw neu eraill (rheoliad 2(1)(a)(i))***

3.22. Rhaid i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad fod yn fodlon bod ymddygiad y person yn cynnig risg di-oed o anaf difrifol neu farwolaeth i'r person neu i eraill. Dylai'r sawl sy'n penderfynu ystyried, os na chymerir camau ataliol, a yw:

- ymddygiad y person yn cyflwyno risg o anaf corfforol i'r person neu i eraill ar lefel sy'n debyg o fod angen triniaeth feddygol ar frys a
- bod risg eisoes yn bodoli neu'n debyg o fodoli yn ddi-oed.

3.23. Yn anochel bydd dyfarniadau o'r fath yn rhannol wrthrychol ac wedi'u hysbysu gan brofiad ehangach o ddelio â sawl a gedwir sydd â'r potensial i fod yn beryglus neu'n danlyd. Er enghraifft, efallai na fydd bygythiad ar lafar i ddefnyddio trais yn ei hun yn bodloni'r trothwy. Serch hynny, os yw'r person eisoes wedi bod yn dreisgar tuag at swyddogion gallai'r ystyriaeth fod yn wahanol. Mae gallu tebygol y person i beri'r radd o anaf difrifol hefyd yn ffactor (felly, er enghraifft gallai materion megis taldra, cryfder, a chydysymud fod yn ystyriaethau perthnasol).

3.24. Efallai na fyddai bod yn feddw a/neu anghydweithredol o reidrwydd yn bodloni'r trothwy. Fe all ymddygiad yn y gorffennol (er enghraifft cofnod troseddol o drosedd treisgar) fod yn berthnasol, ond ni ddylid ei ystyried yn arwydd, ar ei ben ei hun heb unrhyw ymddygiad cyfredol amlwg, bod y person yn cyflwyno risg di-oed o anaf difrifol neu farwolaeth i'w hun neu eraill.

**(2) oherwydd y risg a gyflwynir, nid oes unrhyw fan diogel ac eithrio gorsaf heddlu yn yr ardal heddlu berthnasol<sup>3</sup> y gellir disgwyl iddo'n rhesymol gadw'r person (rheoliad 2(1)(a)(ii))**

3.25. Rhaid i'r sawl sy'n penderfynu fod yn fodlon nad oes man diogel yn yr ardal ac eithrio'r swyddfa heddlu y gellir disgwyl iddo'n rhesymol gadw'r person yng ngoleuni'r risg a gyflwynir. Bydd ymgynghori â gweithwyr proffesiynol gofal iechyd, fel y nodir o dan adran 136(1C), yn gwasanaethu i helpu swyddogion nodi argaeledd a chapasiti manau diogel, a bydd yn cynorthwyo wrth hwyluso mynediad atynt.

3.26. Gallai'r amod hwn gael ei fodloni:

- os nad yw'r man diogel a allai fel arfer reoli ymddygiad y person ar gael – er enghraifft oherwydd nad yw wedi'i gomisiynu dros dro neu eisoes yn llawn (ac ni ellir ei glirio'n rhwydd);
- os oes man diogel ar gael ond nad yw'n gallu rheoli'r person yn rhesymol - er enghraifft oherwydd diffyg staff hyfforddedig ac wedi'u cyfarparu yn ddigonol, neu oherwydd bod nodweddion ffisegol y cyfleuster, gan gynnwys diogelwch a'r gallu i ddiogelu cleifion eraill (er enghraifft mewn ardaloedd asesu ar y cyd), yn annigonol o dan yr amgylchiadau.

3.27. Er bod yr amod hwn yn gofyn i'r sawl sy'n penderfynu ystyried argaeledd manau diogel yn yr ardal heddlu "perthnasol", nid yw'n atal defnyddio man diogel mewn ardal heddlu gwahanol os yw'n cael ei ystyried yn angenrheidiol ac yn briodol. Bydd argaeledd ac addasrwydd cyfleusterau o'r fath yn ôl pob tebyg yn dibynnu ar gytundebau rhanbarthol/trawsffiniol cyfredol.

**(3) hyd y gellir yn rhesymol ymarferol, dylai gweithiwr proffesiynol gofal iechyd fod yn bresennol ac ar gael i'r sawl sy'n cael ei gadw drwyddi draw'r cyfnod pan mae ef neu hi yn cael ei gadw yn yr orsaf heddlu (rheoliad 2(1)(a)(iii)).**

3.28. Rhaid i'r sawl sy'n penderfynu fod yn fodlon y bydd gweithiwr proffesiynol gofal iechyd yn bresennol ac ar gael drwyddi draw'r cyfnod cadw, hyd y gellir yn rhesymol ymarferol (rheoliad 4(1)(b)).

**Gofynion eraill yn ymwneud â defnydd ar orsaf heddlu**

(a) Ymgynghoriad

3.29. Os yw'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad yn swyddog heddlu, mae gofyn iddo ef neu hi o dan reoliad 2(2) ymgynghori ag un o'r gweithwyr proffesiynol gofal iechyd a nodir yn y ddeddfwriaeth (gweler Pennod 2 uchod) – os yw'n rhesymol ymarferol – ar ddefnydd gorsaf heddlu fel man diogel. Yn ymarferol, ymgynghorir gyda gweithiwr proffesiynol gofal iechyd o dan adran 136(1C) ar

<sup>3</sup> "Ardal heddlu berthnasol" yw ardal yr heddlu ble mae'r person a gedwir wedi'i leoli pan ddefnyddiwyd pwerau adran 135 neu 136 yn y lle cyntaf.

ba un a gallai defnyddio pwerau adran 136 lifo'n rhwydd i ystyriaeth bellach o'r man diogel mwyaf priodol. Os, serch hynny, am ba bynnag reswm, bod bwllch rhwng y ddau benderfyniad rhaid i swyddog yr heddlu, os yw'n ymarferol, geisio ymgynghoriad o'r newydd ar y penderfyniad hwn. Nid oes yn rhaid i hyn o reidrwydd fod yr un gweithiwr proffesiynol gofal iechyd â'r un a oedd yn gysylltiedig mewn penderfyniad cynt i ddefnyddio adran 136 os nad ydyw ar gael mwyach.

(b) Awdurdodiad

- 3.30. Mae'r penderfyniad i ddefnyddio gorsaf heddlu fel man diogel yn gofyn am awdurdodiad swyddog heddlu o reng arolygydd (uwch swyddog) o leiaf. Os yw'r sawl sy'n penderfynu yn swyddog heddlu o reng arolygydd neu uwch ei hun, nid oes angen awdurdodiad.
- 3.31. Rhaid derbyn awdurdodiad uwch swyddog cyn i'r person sy'n cael ei gadw gyrraedd yr orsaf heddlu (neu os yw'r person eisoes yn y swyddfa heddlu, cyn i benderfyniad i'w gadw ef/hi yno gael ei weithredu). Mae'n debyg y bydd angen yr awdurdodiad hwn yn gyflym – o ystyried taerineb tebygol achosion o'r fath – a chan hynny efallai y byddai heddluoedd yn dymuno adolygu a oes trefniadau lleol addas wedi'u sefydlu.
- 3.32. Wrth benderfynu a ddylid awdurdodi defnydd ar orsaf heddlu, bydd angen i uwch swyddog asesu'r wybodaeth sydd ar gael er mwyn gweld a yw'n ymddangos bod yr amodau yn cael eu bodloni. Yng nghyswllt yr ail a'r trydydd amod, disgwylir y byddant yn defnyddio'u gwybodaeth o alluoedd mannau diogel iechyd lleol, a pha un a all yr orsaf heddlu arfaethedig gydymffurfio â'r gofyniad am weithiwr proffesiynol gofal iechyd ar y safle. Yng nghyswllt y lefel risg y mae'r person sy'n cael ei gadw yn ei gynning, mae'n annhebygol y bydd y swyddog awdurdodi yn cael cyswllt uniongyrchol gyda'r sawl sy'n cael ei gadw ac yn gallu ffurfio ei asesiad ei hun. Bydd ei benderfyniad gan hynny, o reidrwydd, yn dibynnu ar ei ddyfarniad o asesiad y sawl sy'n penderfynu sy'n cynnig defnyddio'r orsaf heddlu a pha un a yw'n credu ar y cyfan bod asesiad y swyddog yn rhesymol o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir – gan gynnwys gydag unrhyw fewnbwn gan weithiwr iechyd proffesiynol yr ymgynghorwyd ag ef.

## 4. CYRRAEDD AC AROS MEWN MANNAU DIOGEL

---

Crynodeb o ddarpariaethau:

- Y cyfnod a ganiateir i gadw, ble y gall person gael ei gadw mewn man diogel, o dan adran 135 a 136, yw 24 awr erbyn hyn (wedi'i ostwng o uchafswm o 72 awr).
  - Gall ymarferwr meddygol cyfrifol ehangu ar y cyfnod hwnnw gan hyd at 12 awr os na ellir cwblhau asesiad Deddf Iechyd Meddwl o fewn y cyfnod a ganiateir oherwydd cyflwr meddyliol neu gorfforol y person. Os yw'r person yn cael ei gadw mewn gorsaf heddlu, rhaid i swyddog heddlu o reng uwch-arolygydd neu uwch gymeradwyo'r estyniad hefyd.
  - Os yw gorsaf heddlu yn cael ei ddefnyddio fel man diogel – o dan Reoliadau Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Mannau Diogel) 2017 – rhaid i'r swyddog sicrhau:
    - bod lles y person yn cael ei wirio gan weithiwr proffesiynol gofal iechyd o leiaf unwaith bob trideg munud, a bod unrhyw gamau priodol yn cael eu cymryd ar gyfer ei drin a gofalu amdano; a
    - hyd y gellir yn rhesymol ymarferol, bod gweithiwr proffesiynol gofal iechyd yn bresennol ac ar gael i'r person drwyddi draw'r cyfnod y mae'n cael ei gadw yn yr orsaf heddlu;ac os na all unrhyw un o'r amodau hyn gael eu bodloni, rhaid gwneud trefniadau i'r person hwnnw gael ei dywys i fan diogel arall.
  - Rhaid i swyddog dalfa adolygu o leiaf bob awr a yw'r amgylchiadau a oedd yn gwarantu defnydd ar orsaf heddlu yn parhau i fodoli. Os nad ydynt, rhaid mynd â'r person i fan diogel arall nad yw'n orsaf heddlu.
  - Serch hynny, nid oes angen i berson gael ei dywys i fan diogel arall pe bai hyn yn achosi oedi wrth gynnal asesiad Deddf Iechyd Meddwl, a fyddai'n debyg o achosi trallod iddo.
  - Gwneir newidiadau i Adran 138 Deddf 1983 sy'n gostwng y cyfnod y gall person sy'n destun symud i fan diogel, neu ei gadw mewn man diogel, o dan adran 135 a 136 gael ei ail-gymryd os yw'n dianc, gan ei ddwyn yn unol â chyfanswm y cyfnod cadw a ganiateir bellach o dan adrannau 135 a 136.
-

## **CYFNOD CADW HWYAF**

4.1. Y cyfnod hwyaf y gall person gael ei gadw mewn man diogel o dan adran 135 a 136 erbyn hyn yw 24 awr (wedi'i ostwng o 72 awr), gyda'r posibilrwydd o'r cyfnod hwn yn cael ei ymestyn gan 12 awr pellach o dan amgylchiadau penodol.

### **Cyfrifo'r cyfnod cadw**

4.2. Mae'r cyfnod cadw ar gyfer y rheini sy'n cael eu cadw o dan adran 135 neu 136 yn dechrau:-

(i) pan fydd person yn cael ei symud i fan diogel o dan adran 135 neu 136 – ar y pwynt pan mae'r person yn cyrraedd man diogel yn gorfforol. Nid yw'r amser a dreulir yn teithio i fan diogel neu a dreulir y tu allan yn aros i'r cyfleuster agor yn cyfrif;

(ii) ble mae'r person yn cael ei gadw yn y cyfeiriad a nodir yn y warrant o dan adran 135 – yr amser pan fydd y swyddog heddlu yn cyrraedd yr eiddo yn gyntaf; a

(iii) ble mae person yn cael ei gadw mewn man o dan adran 136 – ar y pwynt ble mae'r swyddog yn penderfynu ei gadw yn y fan honno.

4.3. Mae'r cloc yn parhau i dreiglo yn ystod unrhyw drosglwyddiad (os yw hyn yn angenrheidiol) y person rhwng un man diogel ac un arall.

4.4. Os yw'r person sy'n destun i adran 135 neu 136 yn cael ei dywys i Adran Frys ysbyty am driniaeth oherwydd salwch neu anaf yn gyntaf (cyn cael ei symud i fan diogel arall) mae'r cyfnod cadw yn dechrau ar y pwynt pan gyrhaeddodd y person yr Adran Frys (oherwydd bod ysbyty yn fan diogel).

### **Ymestyn y cyfnod cadw**

4.5. Gall y cyfnod cadw hwyaf newydd o 24 awr gael ei ymestyn gan hyd at 12 awr pellach – i uchafswm o 36 awr – ond dim ond o dan amgylchiadau cyfyngedig iawn.

4.6. Y rhain yw, oherwydd cyflwr y person (corfforol neu feddyliol), nad yw'n ymarferol cynnal asesiad Deddf Iechyd Meddwl o fewn y cyfnod o 24 awr. Gallai hyn godi, er enghraifft, os yw'r person yn dioddef gormod o drallod meddwl, neu yn arbennig o feddw gydag alcohol neu gyffuriau ac na all gydweithredu gyda'r broses asesu. Nid yw presenoldeb wedi'i oedi gan Weithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy neu ymarferwr meddygol yn rheswm dilys dros ymestyn y cyfnod cadw.

- 4.7. Dim ond ymarferwr meddygol cyfrifol<sup>4</sup> a all wneud y penderfyniad i ymestyn y cyfnod cadw os yw'r person yn cael ei gadw mewn gorsaf heddlu, a'r bwriad yw i'r asesiad gael ei gynnal mewn gorsaf heddlu, rhaid i'r awdurdodiad i ymestyn ar y cyfnod cadw hwyaf gael ei gymeradwyo hefyd gan swyddog heddlu o reng uwch-arolygydd neu uwch (gan y disgwylir y byddai'n anarferol i berson barhau i fodloni'r meini prawf i gael ei gadw mewn gorsaf heddlu am hyd at 36 awr).
- 4.8. Rhaid cyfrifo'r cyfnod cadw yn gywir, ei gofnodi a'i gyfathrebu rhwng asiantaethau, yn enwedig pan fyddant yn 'trosglwyddo' cyfrifoldeb dros ofal y person hwnnw, gan fod y cloc yn parhau i dreiglo yn ystod unrhyw drosglwyddiad.

### **AIL-GYMRYD PERSON SY'N DIANC - ADRAN 138**

- 4.9. Mae Adran 138 yn delio â phwerau i ail-gymryd person sy'n destun i adran 135 neu 136 sy'n dianc o'r ddalfa. Gwnaeth Adran 138(3) ddarpariaeth yn flaenorol na allai'r pŵer i ail-gymryd person sy'n dianc wrth gael ei dywys neu ei gadw mewn man diogel o dan adrannau 135 neu 136 y Ddeddf gymhwyso ar ôl diwedd y 72 awr o'r amser dianc, neu'r cyfnod yr oedd ef/hi yn atebol i gael ei gadw, pa un bynnag sy'n dod i ben gyntaf. Roedd hyn yn unol â'r cyfnodau amser y gallai'r person gael ei gadw o'r blaen o dan adrannau 135 neu 136 at ddibenion asesiad.
- 4.10. O ystyried gostyngiad yn y cyfnod uchaf arferol y gall person gael ei gadw erbyn hyn o dan adran 135 neu 136 i 24 awr, mae'r graddfeydd amser yn adran 138 bellach wedi'u gostwng yn unol â hynny. Mae diwygiadau i adran 138(3) yn darparu ar gyfer:

*(i) Dianc yn ystod symud i fan diogel*

Os yw person yn dianc yn ystod y broses o gael ei symud i fan diogel o dan adran 135(1) neu 136 (1) ni all ef neu hi gael ei ail-gymryd o dan y ddarpariaeth hon ar ôl i'r cyfnod o 24 awr ddod i ben o amser y ddihangfa honno.

*(ii) Dianc o fan diogel*

Os yw person yn dianc ar ôl cyrraedd man diogel, ni ellir ei ail-gymryd ef/hi o dan y ddarpariaeth hon ar ôl yr amser hwyaf y gellid ei gadw yn y fan honno. Gan amlaf cyfanswm y cyfnod fydd 24 awr ond rhaid ystyried hefyd unrhyw estyniad i'r cyfnod hwnnw (hyd at uchafswm o 12 awr), ble y mae hyn eisoes wedi'i awdurdodi gan yr ymarferwr meddygol o dan adran 136B, ar bwynt unrhyw ddihangfa.

---

<sup>4</sup> Diffinnir yr ymarferwr meddygol cyfrifol gan yr adran newydd 136B fel "Yr ymarferwr meddygol cofrestredig sy'n gyfrifol am archwilio person sy'n cael ei gadw o dan adran 135 neu 136".

#### 4.11. Dyma enghreifftiau:

- Os yw person yn cael ei gadw o dan adran 136(1) am 10:30 ac yn dianc wrth gael ei drosglwyddo i fan diogel am 11:30, gellir ei ail-gymryd hyd at 11:30 y diwrnod wedyn ond nid y tu hwnt i'r amser hwnnw.
- Os yw person yn cael ei dywys i fan diogel ac yn dianc ar ôl bod yno am dair awr – ac nad oes estyniad i'r cyfnod o 24 awr wedi'i awdurdodi bryd hynny – gellir ei ail-gymryd o dan y darpariaethau hyn o fewn y 21 awr a ganlyn ond nid y tu hwnt i'r cyfnod hwnnw.
- Os yw person wedi bod mewn man diogel am 20 awr a bod ymarferwr meddygol wedi awdurdodi cyfnod cadw pellach o 6 awr, a bod y person yn dianc, gellir ei ail-gymryd o dan y darpariaethau hyn o fewn y 10 awr a ganlyn, ond nid y tu hwnt i'r cyfnod hwnnw.

### **RHEOLAETH DDIOGEL AR BOBL A GEDWIR MEWN MANNAU DDIOGEL**

4.12. O dan rai achosion gallai person sy'n cael i gadw o dan adran 135 neu adran 136 arddangos ymddygiad treisgar, neu'n bygwth hynny. Mae gweithwyr proffesiynol iechyd a phlisma eisoës yn gweithio'n llwyddiannus gyda'i gilydd mewn sawl enghraifft i reoli sefyllfaoedd o'r fath yn ddiogel a dylai'r gwaith hwn mewn partneriaeth gael ei gefnogi trwy gytundebau lleol.

#### **Rheoli diogelwch mewn manau diogel iechyd**

4.13. Fel yr amlinella Pennod 3, dim ond o dan amgylchiadau cyfyngedig a amlinellir yn y Rheoliadau y gellir defnyddio gorsaf heddlu fel man diogel. Os yw person yn arddangos ymddygiad ymosodol ar lafar neu yn feddw neu'n lletchwith, er enghraifft, nid yw hynny ynddo ei hun yn bodloni'r amodau ar gyfer defnyddio gorsaf heddlu, bydd angen rheoli'r person mewn man diogel ac eithrio gorsaf heddlu.

4.14. Mewn rhai achosion, fe allai fod yn bragmatig i swyddogion heddlu gefnogi gweithwyr proffesiynol iechyd trwy weithio gyda hwy i sicrhau bod y person yn cael ei dderbyn yn ddiogel i fan diogel iechyd (ac ar ôl hynny dylai swyddogion heddlu fod yn gallu gadael y cyfleuster i ailafael mewn dyletswyddau eraill). Dylai cydweithio o'r fath fod yn amodol ar brotocolau y cytunir arnynt yn lleol gyda phob grŵp yn glir am eu rolau unigol (wedi'i hysbysu gan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cytunir arno'n genedlaethol ar bresenoldeb yr heddlu mewn lleoliadau iechyd meddwl – gweler manylion ym Mhennod 6).

#### **Rheoli diogelwch mewn "mannau addas eraill"**

4.15. Rhagwelir y bydd defnydd ar fannau diogel wrth gefn neu ad-hoc – megis y rheini a ddarperir gan grwpiau cymunedol neu wirfoddol, neu ddefnydd ar anheddau preifat, anheddau domestig – yn ddigwyddiad gweddol brin. Bydd



addasrwydd man o'r fath yn dibynnu i raddau helaeth ar gyflwr ac ymddygiad y person.

- 4.16. Er hynny, o dan amgylchiadau o'r fath bydd angen i'r swyddog heddlu, gweithiwr proffesiynol iechyd (os oes un yn gysylltiedig) a, ble fo'n briodol, y person sy'n gyfrifol am reoli'r man, bennu pa gefnogaeth neu gynllun wrth gefn fyddai'n angenrheidiol i gadw'r person yn ddiogel yn y fan honno wrth aros am asesiad Deddf Iechyd Meddwl, gan gynnwys beth i'w wneud os yw'r ymddygiad yn newid yn sydyn.

### **Rheoli diogelwch a lles mewn gorsafoedd heddlu**

- 4.17. Yn ystod cyfnod cadw'r person mewn gorsaf heddlu, bydd y swyddog dalfa yn parhau yn gyfrifol am 'dderbyn' y person a goruchwylio ei gyfnod cadw yn unol â'r Ddeddf Plismona a Thystiolaeth Droseddol 1986, Cod C PACE, ynghyd â materion diogelu ychwanegol a amlinellir gan reoliadau 4 i 7 y Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (Mannau Diogel) Rheoliadau 2017.
- 4.18. Mae Rheoliad 4(1)(b) yn gofyn i swyddog y ddalfa sicrhau bod gweithiwr proffesiynol gofal iechyd yn bresennol ac ar gael i'r person sy'n cael ei gadw drwyddi draw ei gyfnod yn yr orsaf heddlu, hyd y gellir yn rhesymol ymarferol. Rhagwelir na fydd y cyfnodau gweddol fyr ble bydd y gweithiwr proffesiynol gofal iechyd yn delio ag unigolyn arall neu yn cymryd seibiant byr yn ei hun yn torri'r amod. Pe na bai gweithiwr proffesiynol gofal iechyd ar gael yn annisgwyl (er enghraifft wedi'i gymryd yn sâl neu wedi'i anafu) fe allai fod yn rhesymol aros am gyfnod byr am weithiwr proffesiynol gofal iechyd ar alwad i gyrraedd i barhau â'r gofal.
- 4.19. Bydd y swyddog dalfa bob amser yn cadw cyfrifoldeb llwyr dros sicrhau lles y person sy'n cael ei gadw ac i wneud unrhyw drefniadau y mae'n meddwl sy'n angenrheidiol i'w ofal, gan gynnwys trosglwyddiad (gweler isod). Er bod gofal iechyd hygyrch yn fater diogelu pwysig mae'n parhau'n wir nad gorsafoedd heddlu yw'r amgylchedd a ffefrir i rywun y credir ei fod yn dioddef o anhwylder meddwl ac nid oes unrhyw beth yn Rheoliadau 2017 yn diystyru darpariaethau yng Nghod C PACE ar y swyddog dalfa yn anfon am ambiwlans neu'n cyfeirio'r person hwnnw i ysbyty am driniaeth frys os yw'n ystyried bod hynny'n angenrheidiol.
- 4.20. Mae Rheoliad 4(1)(a) yn gofyn i'r swyddog dalfa sicrhau bod gweithiwr proffesiynol gofal iechyd yn gwirio lles y person sy'n cael ei gadw o leiaf bob hanner awr ac y dylid cymryd unrhyw gamau priodol ar gyfer ei driniaeth a'i ofal. Dylid cofnodi manylion y gwiriadau hyn.
- 4.21. Mae Rheoliad 5(1) yn gofyn i'r swyddog dalfa adolygu, o leiaf bob awr, a yw'r amgylchiadau yn rheoliad 2(1)(a)(i) a (ii) yn parhau i fodoli – yn bennaf a yw eu hymddygiad yn cynnig risg di-oed o anaf difrifol neu farwolaeth i'w hun neu eraill, ac oherwydd y risg honno nid oes unrhyw fan diogel ac eithrio gorsaf heddlu yn yr ardal heddlu berthnasol yn gallu disgwyl eu cadw yn rhesymol. Bydd hyn yn gofyn am asesiad a yw ymddygiad y person wedi cymedroli i'r pwynt ble y gellir ei reoli'n ddiogel yn awr mewn man diogel arall (yn

ddelfrydol man diogel iechyd). Dylai dyfarniad o'r fath hefyd gynnwys asesiad a fyddai ymddygiad y person yn cynnig risg di-oed pe na fyddai mewn gorsaf heddlu. Mae hyn er mwyn osgoi cludo'r person yn ôl ac ymlaen rhwng mannau diogel oherwydd newidiadau mewn ymddygiad.

- 4.22. Wrth wneud yr asesiad hwn rhaid i'r swyddog dalfa, os yw'n ymarferol, ymgynghori â'r gweithiwr proffesiynol gofal iechyd a gynhaliodd y gwiriadau lles bob hanner awr y tro diweddaraf. Mae sefyllfaoedd ble na fyddai ymgynghoriad o'r fath yn ymarferol yn cynnwys ble mae'r gweithiwr proffesiynol iechyd yn delio â rhywun arall sy'n cael ei gadw, neu yn absennol neu heb fod ar gael dros dro, neu os oes newid shifft yn y staff iechyd. Mae'r ymgynghoriad yn debyg o gynnwys a yw'r weithred i drosglwyddo person sydd yn awr yn ymddangos yn dawel ac yn cydymffurfio yn debyg o sbarduno'r ymddygiad cynhyrfus blaenorol, ac a fyddai trosglwyddiad yn golygu oedi wrth gynnal asesiad iechyd meddwl.
- 4.23. Mae Rheoliad 6 yn darparu y gallai'r cyfnod ble mae'r swyddog dalfa yn adolygu'n barhaus cadw'r person yn yr orsaf heddlu – fel sy'n ofynnol gan reoliad 5 – gael ei ymestyn i ddim mwy na bob tair awr os yw'r person yn cysgu, a chyhyd ac nad yw'r gweithiwr proffesiynol gofal iechyd sy'n cynnal y gwiriadau 30 munud heb nodi unrhyw risgiau a fyddai'n gofyn iddo gael ei ddeffro'n amlach. Bwriad y ddarpariaeth hon yw hyrwyddo lles y person ble y gallai cyfnod o orffwys gynorthwyo wrth dawelu ymddygiad cynhyrfus blaenorol a helpu'r broses wella. Serch hynny, gall swyddog dalfa ddeffro person o fewn y cyfnod o amser tair awr o hyd hwyaf at ddibenion asesu a yw amodau defnyddio'r orsaf heddlu yn parhau i gael eu bodloni.
- 4.24. Rhaid i wiriadau lles bob hanner awr rheolaidd sy'n ofynnol gan reoliad 4(1)(a) (ac a ddisgrifir uchod) barhau yn ystod y cyfnod hwn. Dylai'r gweithiwr proffesiynol gofal iechyd asesu a yw'r person yn cysgu go iawn, a allai cyfnod o gwsg o'r fath fod yn fuddiol, neu a allai cwsg ymddangosiadol fod yn cuddio symptomau corfforol eraill megis ffit neu anymwybyddiaeth ac os felly byddai angen sylw meddygol ar frys. Dylai'r gweithiwr proffesiynol gofal iechyd bennu a yw'n angenrheidiol deffro person sy'n cysgu yn ystod y cyfnod hwn at ddibenion gwirio a sicrhau ei les. Gallai penderfyniad i ddeffro person sbarduno adolygiad ymddygiadol pellach gan y swyddog dalfa, gan ddibynnu ar yr amseru.
- 4.25. Mae Rheoliadau 4 a 5 ill dau yn gofyn am amllder gofynnol yr adolygiadau sy'n rhaid eu cynnal. Nid yw hyn yn atal gwiriadau a monitro rhag cael eu cynnal yn amlach neu yn wir ar sail gyson, os yw hynny'n cael ei ystyried yn briodol yn lleol.
- 4.26. Mae'r Rheoliadau yn gofyn i swyddog dalfa drefnu i berson gael ei dywys i fan diogel arall o dan rai amgylchiadau, sef:
  - os nad yw'r gofyniad bod gwiriad lles yn cael ei gynnal o leiaf bob hanner awr, neu fod (hyd y gellir yn rhesymol) gofal iechyd proffesiynol yn bresennol ac ar gael drwyddi draw'r cyfnod cadw yn cael ei fodloni – rhaid mynd â'r person i fan diogel arall; neu

- os nad yw'r maen prawf ar gyfer defnyddio'r orsaf heddlu fel man diogel (ymddygiad yn cynnig risg di-oed o anaf difrifol neu farwolaeth, ac nad oes man diogel yn yr ardal berthnasol ac eithrio gorsaf heddlu y gellir disgwyl yn rhesymol iddynt gadw'r person) bellach yn bodoli – rhaid mynd â'r person i fan diogel arall nad yw'n orsaf heddlu.
- 4.27. Mae Rheoliad 7 yn darparu eithriad i'r gofynion uchod i drosglwyddo'r person i fan diogel arall, os oes trefniadau wedi'u gwneud i gynnal asesiad iechyd meddwl yn yr orsaf heddlu ac y byddai oedi'r asesiad yn achosi trallod i'r person. Mae'n debyg y byddai hyn yn fwyaf tebygol ble gwyddys bod y Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy ar ei ffordd a bod yr asesiad yn debyg o ddechrau o fewn ychydig oriau ar y mwyaf, a ble byddai trosglwyddo'r person i fan diogel arall yn debyg o gymryd mwy o amser nac i'r gweithiwr proffesiynol gofal iechyd gyrraedd yr orsaf heddlu.
- 4.28. Dylai partneriaid lleol sefydlu trefniadau cyswllt effeithiol fel y bydd trosglwyddiad o orsaf heddlu i fan diogel arall yn cael ei gyflawni mor llyfn â phosibl. Yn benodol, bydd hi'n bwysig osgoi oedi gormodol wrth dderbyn i fan diogel arall er mwyn isafu ar boen ychwanegol i'r person sy'n cael ei gadw. Bydd hefyd yn hanfodol sicrhau bod unrhyw Weithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy a meddyg y cysylltwyd â hwy i gynnal asesiad yn cael gwybod am newid lleoliad.

## 5. CEFNOGI MONITRO AC ADOLYGU'R NEWIDIADAU

---

**Mae'r adran hon yn awgrymu rhai camau y gallai partneriaid iechyd, heddlu ac eraill fod yn dymuno eu hystyried ar gyfer gweithredu a monitro newidiadau yn eu hardal leol.**

---

### YSTYRIAETHAU AR GYFER PARTNERIAETHAU LLEOL

- 5.1. Mae effaith y newidiadau yn debyg o amrywio ar draws sefydliadau ac o un ardal ddaearyddol i'r llall – gan ddibynnu ar arfer blaenorol. Mae Partneriaethau Concordat Gofal Argyfwng Lleol, ble y mae'r holl sefydliadau perthnasol yn cael eu cynrychioli, yn debyg o ddarparu'r fforwm mwyaf priodol i sicrhau gweithrediad llyfn mewn sawl ardal.
- 5.2. Argymhellir bod partneriaid lleol yn gwneud defnydd llawn ar y data lleol a chenedlaethol sydd ar gael i asesu galw yn awr ac o bosibl yn y dyfodol ar wahanol rannau o'r system o ganlyniad i'r newidiadau.
- 5.3. Dylai cyrsiau hyfforddi cyfredol gael eu hadolygu yn ôl yr angen i sicrhau eu bod yn adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol.
- 5.4. Gallai partneriaid lleol fod eisiau ystyried pa un yw'r ffordd orau i fonitro effeithiau'r darpariaethau deddfwriaethol newydd a sut i nodi a datrys unrhyw ddryswch neu anawsterau cynnar wrth weithredu unrhyw brotocolau newydd a gyflwynir.
- 5.5. Bydd penderfyniadau mewn achosion ble mae ymddygiad y person sy'n profi argyfwng iechyd meddwl yn arbennig o heriol yn anochel yn cynnwys dyfarniadau anodd gan bob grŵp a bydd yn gofyn am weithio agos mewn partneriaeth o dan bwysau.
- 5.6. Wrth ddiwygio polisiau lleol, efallai y bydd partneriaethau eisiau cryfhau systemau cyswllt a gwybodaeth lleol yn ymwneud ag argaeledd a galluoedd eu hamryw fannau diogel i sicrhau bod modd gwneud penderfyniadau amserol ar y man priodol i'w ddefnyddio. Efallai y byddai partneriaethau hefyd yn dymuno ystyried a yw'n angenrheidiol neu'n ddoeth sefydlu prosesau ar gyfer datrys yn gyflym unrhyw sefyllfaoedd posibl ble y mae penderfyniad wedi'i wneud nad yw'r person yn bodloni'r amodau yn ymwneud â defnydd ar orsaf heddlu fel man diogel, ac mae staff mewn mannau diogel eraill yn gyndyn i dderbyn y person ar sail ymddygiadol neu eraill.
- 5.7. Yn ychwanegol, oherwydd bod defnydd ar orsafoedd heddlu bellach yn cael ei wahardd ar gyfer y rheini sy'n iau na 18 oed a'i gyfyngu i'r amgylchiadau a

amlinellir yn y Rheoliadau ar gyfer oedolion, efallai y byddai partneriaid yn dymuno adolygu ac ystyried unrhyw ddysg o'r achosion hynny ble mae gorsafoedd heddlu yn cael eu defnyddio fel mannau diogel o dan y darpariaethau newydd.

## **YSTYRIAETHAU AR GYFER CYRFF CENEDLAETHOL**

### **Gosod safonau**

5.8. Mae nifer o safonau wedi'u gosod yn genedlaethol neu arweiniad wedi'i gyhoeddi, sy'n effeithio ar weithredu adrannau 135 a 136, y gallai fod angen eu haddasu i adlewyrchu'r diwygiadau. Ymhlith y rhain mae:

- Cod Ymarfer Deddf Iechyd Meddwl, Yr Adran Iechyd 2015
- Concordat Gofal mewn Argyfwng Iechyd Meddwl, Llywodraeth Ei Mawrhydi, 2014
- Concordat Gofal mewn Argyfwng, Llywodraeth Cymru a Phartneriaid
- Cod Ymarfer Cymru (2016) Deddf Iechyd Meddwl 1983; ac
- Arfer Proffesiynol Cymeradwy ar Salwch meddwl ac anabledau dysgu'r Coleg Plismona.

5.9. Darperir dolenni at y cyhoeddiadau perthnasol hyn (ac eraill) yn adran 6.

### **Cyrff rheoleiddio**

5.10. Bydd cyrff rheoleiddio ac ymchwiliadol gyda diddordeb yn y gweithgareddau a pherfformiad asiantaethau lleol gyda chyfrifoldebau yn ymwneud ag adran 135 a 136 (gan gynnwys er enghraifft y Comisiwn Ansawdd Gofal, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Arolygiad Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi, Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu, NHS Protect) yn ystyried y newidiadau deddfwriaethol yn ystod prosesau neu ymchwiliadau arolygu yn y dyfodol.

## 6. DEUNYDD CYSYLLTIEDIG

*Nodwch os gwelwch yn dda: Mae'r deunydd a'r dolenni cysylltiedig yma yn gyfredol adeg cyhoeddi'r arweiniad hwn, ym mis Hydref 2017.*

### 6.1. DEDDFWRIAETH BERTHNASOL

Diwygiadau i adrannau 135, 136 a 138 Deddf Iechyd Meddwl 1983, a wnaed gan y Ddeddf Plismona a Throsedd 2017, Rhan 4, Pennod 4 "Pwerau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl"

<http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2017/3/part/4/chapter/4/enacted>

Nodiadau esboniadol ar gyfer y Ddeddf Plismona a Throsedd 2017 (paratowyd gan y Swyddfa Gartref i gynorthwyo gyda darllen Deddf 2017)

[http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2017/3/pdfs/ukpgaen\\_20170003\\_en.pdf](http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2017/3/pdfs/ukpgaen_20170003_en.pdf)

Rheoliadau Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Mannau Diogel) 2017

<http://www.legislation.gov.uk>

### 6.2. SAFONAU CENEDLAETHOL AC ARWEINIAD

Deddf Iechyd Meddwl 1983: Cod Ymarfer (Lloegr) (Ionawr 2015)

<https://www.gov.uk/government/publications/code-of-practice-mental-health-act-1983>

Deddf Iechyd Meddwl 1983 Cod Ymarfer Cymru (Hydref 2016)

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/160920mentalacten.pdf>

Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig (APP) Salwch Meddwl ac Anabledau Dysgu (Hydref 2016)

<https://www.app.college.police.uk/mental-health-index-2/#mental-health-detention>

Cod C PACE 2017 (Gofynion ar gyfer cadw, trin a holi rhai yr amheuir nad ydynt yn gysylltiedig â therfysgaeth yn nalfa'r heddlu) (Chwefror 2017)

<https://www.gov.uk/government/publications/pace-code-c-2017>

Cyflawni Mynediad Gwell i Ofal Iechyd Meddwl Brys ac Mewn Argyfwng (Tachwedd 2016)

<https://www.england.nhs.uk/mental-health/resources/>

<http://www.rcpsych.ac.uk/workinpsychiatry/nccmh/mentalhealthcarepathways/urgentandemergencycare.aspx>

Safonau ar ddefnyddio Adran 136 Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Cymru a Lloegr) (Gorffennaf 2011)

<http://www.rcpsych.ac.uk/files/pdfversion/CR159x.pdf>

Arweiniad i gomisiynwyr: darpariaeth gwasanaeth ar gyfer Adran 136 Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Ebrill 2013)

[http://www.rcpsych.ac.uk/pdf/PS02\\_2013.pdf](http://www.rcpsych.ac.uk/pdf/PS02_2013.pdf)

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth – Defnydd yr Heddlu ar Ataliaeth o fewn Lleoliadau Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu (Ionawr 2017)

[http://www.college.police.uk/What-we-do/Support/uniformed-policing-faculty/Documents/ERG\\_Final\\_Copy.pdf](http://www.college.police.uk/What-we-do/Support/uniformed-policing-faculty/Documents/ERG_Final_Copy.pdf)

Comisiwn Ansawdd Gofal: 'Hawliau nawr, hawliau heddiw' (adroddiad cenedlaethol yn edrych ar brofiadau pobl o help, gofal a chefnogaeth yn ystod argyfwng iechyd meddwl) (Mehfin 2015)

[https://www.cqc.org.uk/sites/default/files/20150611\\_righthere\\_mhcrisiscare\\_summary\\_3.pdf](https://www.cqc.org.uk/sites/default/files/20150611_righthere_mhcrisiscare_summary_3.pdf)

### **6.3. FFYNONELLAU DATA CENEDLAETHOL**

Cleifion mewnol sy'n cael eu cadw'n ffurfiol mewn ysbytai o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 a chleifion sy'n destun i Driniaeth Gymunedol dan Oruchwyliaeth: 2015/16, Ffigurau blynyddol (Hydref 2016)

<https://digital.nhs.uk/catalogue/PUB22571>

Cadw unigolion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (1983): pwerau'r heddlu a gweithdrefnau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017.

<https://www.gov.uk/government/statistics/police-powers-and-procedures-england-and-wales-year-ending-31-march-2017>

Dangosfwrdd Blaenolwg Pum Mlynedd Iechyd Meddwl (Medi 2017)

<https://www.england.nhs.uk/mental-health/taskforce/imp/mh-dashboard/>

Comisiwn Ansawdd Gofal: 'A safer place to be' (canfyddiadau o arolwg mannau diogel iechyd ar gyfer pobl a gedwir o dan adran 136 Deddf Iechyd Meddwl) (Hydref 2014)

<http://www.cqc.org.uk/publications/themed-work/safer-place-be>

### **6.4. DEUNYDDIAU ERAILL**

Adolygu gweithrediad Adrannau 135 ac 136 Deddf Iechyd Meddwl (Ebrill 2014)

<https://www.gov.uk/government/consultations/review-of-the-operation-of-sections-135-and-136-of-the-mental-health-act>

Man diogel amgen: Gwerthusiad peilot West Sussex 2015 (Hydref 2015)

<https://www.gov.uk/government/publications/alternative-place-of-safety-west-sussex-pilot-evaluation-2015>

**CYNGOR AR BONTIO I'R DDEDDFWRIAETH DDIWYGIEDIG****Darpariaethau pontio yn y ddeddfwriaeth**

Daeth y newidiadau i bwerau heddlu a darpariaethau manau diogel yn y Ddeddf 1983 a'r Rheoliadau sy'n cyfyngu ar ddefnydd gorsafoedd heddlu fel manau diogel i rym ar 00:00 ar 11 Rhagfyr 2017.

Nid yw'r newidiadau yn berthnasol i achosion ar y gweill am 00:00 o'r gloch ar 11 Rhagfyr 2017 yn rhinwedd arbed darpariaethau yn Rheoliadau Deddf Plismona a Throsedd 2017 (Cychwyn Rhif 4 a Darpariaethau Arbed) 2017. O ganlyniad i hynny, nid yw'r newidiadau yn gymwys os:

- (a) Yw'r warant yn awdurdodi symud person o dan adran 135 wedi'i gyhoeddi am 23:59 neu gyn hynny ar 10 Rhagfyr 2017; neu
- (b) yw symud y person i fan diogel o dan adran 136 wedi cychwyn am 23:59 neu gyn hynny ar 10 Rhagfyr 2017.

Er enghraifft:

- os yw gwarant adran 135 wedi'i gyhoeddi am 18:35 ar 10 Rhagfyr, ond nad yw'r swyddog heddlu yn dechrau symud y person i fan diogel hyd at 01:15 o'r gloch ar 11 Rhagfyr, bydd y person yn amodol ar yr hen drefn (h.y. ni fydd y newidiadau yn gymwys).
- os yw swyddog heddlu yn dechrau symud person i fan diogel o dan adran 136 am 23:30 o'r gloch ar 10 Rhagfyr, waeth pa bryd y mae'r person hwnnw yn cyrraedd y man diogel, bydd ef neu hi yn amodol ar yr hen drefn (h.y. ni fydd y newidiadau yn gymwys);
- os yw'r person yn dianc wrth gael ei symud i fan diogel o dan adran 136 am 23:10 o'r gloch ar 10 Rhagfyr, ac yn cael ei ail-gymryd am 05:00 o'r gloch ar 11 Rhagfyr 2017, bydd ef neu hi yn amodol ar yr hen drefn (h.y. ni fydd y newidiadau yn gymwys).

**Ystyriaethau ar gyfer plismona a phartneriaid iechyd**

O ganlyniad i hynny, bydd cyfnod o orgyffwrdd o hyd at dridiau ar ôl 00:00 ar 11 Rhagfyr 2017 ac o fewn y cyfnod hwnnw bydd rhai pobl a gedwir o dan y Ddeddf 1983 yn amodol i'r darpariaethau cyn-cychwyn (hen drefn), tra bydd eraill yn amodol ar y darpariaethau ôl-gychwyn (trefn newydd) (a chan hynny yn amodol ar weithdrefnau gwahanol).

Y newidiadau mwyaf critigol ble mae potensial am ddwy system wahanol yn gweithredu ochr yn ochr yn y cyfnod gorgyffwrdd yw:

- y gwaharddiad yn dod i rym ar ddefnyddio gorsafoedd heddlu fel manau diogel yn achos plant sy'n iau na 18 oed;
- cyfyngiadau ar yr amgylchiadau ble gellir defnyddio celloedd yr heddlu fel manau diogel i oedolion; a



- gostyngiad yn y cyfnod ble gellir cadw pobl o dan y darpariaethau o 72 i 24 awr (yn amodol ar estyniad 12 awr wedi'i awdurdodi gan ymarferwr meddygol cofrestredig, ble fo'n angenrheidiol o ystyried cyflwr y person).

### **Rheoli achosion yn ystod y cyfnod pontio**

Bydd hi'n allweddol yn ystod y cyfnod pontio, bod asiantaethau lleol yn glir iawn yn ystod trosglwyddo unrhyw unigolion sy'n destun i ddarpariaethau adran 135 a 136 a yw darpariaethau cyn neu ôl-gychwyn yn gymwys (sy'n dylanwadu ar amserau cadw ayyb), a bod cofnodion clir yn cael eu cadw ar y materion hyn.